

CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWDYD YN YSGOL LLANDDOGED, LLANDDOGED NOS LUN 26ain Chwefror , 2018.

PRESENNOL

Cyng. Hefin Martin (Cadeirydd), Cyng. Eifion Williams, Cyng. John Owen, Cyng. Alun Morris, Cyng. Nerys Dobson, Cyng. Austin Roberts, Delyth Algieri (clerc).

YMDDIHEURIADAU

Cyng. Arwel Ll.Jones, Cyng. Mike Rayner , Cyng. Dylan Jones,

Cadarnhau'r Cofnodion

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y 23ain Ionawr, 2018.

Materion yn codi o'r cofnodion

DIFFIBLIWR I ARDAL MAENAN

Nododd Cyng. Nerys Dobson y bydd hi yn mynychu'r hyfforddiant diffibliwr yng Ngwesty Maenan Abbey.

YSWIRIANT AR Y DIFFIBLIWR

Clerc heb dderbyn gwybodaeth ar bwy sydd yn gyfrifol i yswirio'r diffibliwr yn Llanddodged. Bydd y clerc hefyd yn gwneud ymholiad gyda'r cwmni yswiriant newydd.

BAND EANG CYFLYM

Cafwyd gwybodaeth fod cyfarfod cyhoeddus yn cael ei gynnal yng Ngwesty Maenan Abbey i drafod cysylltiad band eang cyflym iawn yng nghefn gwlad ar 8fed Mawrth o 11yb – 12.30 y.p gan Janet Finch-Saunders aelod cynulliad y Ceidwadwyr.

EGIN WEN LLANDDOGED

Derbyniwyd amcan bris o £193.50 i drwsio postyn giât ac ail osod carreg yn nol ar y wal ym maes parcio Gegin Wen gan Mr Elwyn Williams, Ty'n Gwern Uchaf, Llanddodged. Trafodwyd y pris a phasiwyd drwy godi dwylo i dderbyn y pris.

CEISIADAU CYMORTH ARIANNOL

1. Llythyr gan Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy Llanrwst yn gofyn am gais ariannol tuag at yr Eisteddfod. Pasiwyd drwy godi dwylo i anfon swm o £25 tuag noddi eitem ar y rhaglen yr Eisteddfod.

UN LLAIS CYMRU

Pasiwyd i adnewyddu tal aelodaeth o £83 gydag Un Llais Cymru am y flwyddyn 2017/18.

GOHEBIAETH

1. Llythyr gan Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy Llanrwst – cais ariannol.
2. Llythyr Un Llais Cymru cais i adnewyddu tal aelodaeth 2017/18.
3. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - Gwybodaeth am ymgynghoriad diwygiedig ar Orchymyn Gwarchod Diogelu Mannau Cyhoeddus Rheoli Cŵn.

HYSBYSFWRDD LLANDDOGED

Derbyniwyd cais gan Gymdeithas Rhieni Ysgol Llanddaged i gael defnyddio rhan o'r hysbysfwrdd ar gyfer rhoi gohebiaeth yr ysgol arno. Pasiwyd fod dim gwrthwynebiad gan y Cyngor Cymuned bydd Cyng. Mike Rayner yn gosod gwydrau newydd ar yr hysbysfwrdd yn fuan.

CYNNAL A CHADW

- 1) Cangen yn gwyro i'r ffordd ac yn bachu mewn cerbydau trymion rhwng Carreg Ednyfed a Chae Brychiad.
- 2) Angen llenwi biniau halen ar ffordd Trwyn Swch Llanddaged a rhai eraill o gwmpas yr ardal.
- 3) Twll yn y ffordd wrth Maes Bach, Ffordd Trwyn Swch, Llanddaged.
- 4) Twll yn ffordd rhwng Aneddle a Tŷ Gwyn Llanddaged.
- 5) Tyllau yn y ffordd ar y ffordd o'r A470 i fyny hyd at Y Felin, Maenan.
- 6) Ffos wedi blocio wrth Y Felin Maenan.